CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 28ain O CHWEFROR 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.
COFNODION

Cyn dechrau'r cyfarfod derbyniwyd anerchiad oddi wrth Mrs Gwyneth Jones, *Age Concern Ceredigion.*

Mae *Age Concern* yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn Sir Aberteifi. Mae'n ail ond i'r Iechyd Cenedlaethol (National Health) yn ei ddarpariaeth ar gyfer yr henoed. Derbyniwyd gymhorthdal am 3 blynedd o gronfa'r *Comic Relief,* yn ddiweddar.

Mae'n cynghori â phobl hŷn Ceredigion er mwyn darganfod eu hanghenion a'u disgwyliadau ac yn ymateb i'w gofynion gan ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys *Gwybodaeth Cyffredinol a Chyngor, Materion yn Ymwneud ag Arian, Clybiau Cinio, Glanhau Cartrefi, Dosbarthiadau Cadw'n Heini, Gweithgareddau Canolfan Dydd* a *Chymorth ar Gyfer Siopa*. E.E.

- Mae gwybodaeth a dderbyniwyd gan bobl hŷn ynglŷn â'u hangenion yn cael ystyriaeth pan yn cynllunio adeiladau ar gyfer y dyfodol;
- Darperir hyforddiant Technoleg Gwybodaeth;
- Rhoddir ystyriaeth i broblemau teithio mewn ardaloedd gwledig;
- Mae materion galwadau ffôn, "cold-calling" yn derbyn sylw;
- Rhoddir cymorth ar gyfer gwneud ceisiadau am fudd-daliadau - y llynedd collwyd £1,000,000 gan nad oedd yr Henoed yng Ngheredigion wedi cyflwyno ceisiadau a oedd yn ddyletswydd iddynt.

Gellir derbyn mwy o wybodaeth am *Age Concern Cerediigon* drwy ymweld â'u safle ar y we megis www.ageconcernceredigion.org.uk.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Chris Thomas.

PRESENNOL: Cyng. Maer Chris Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis, Greg Evans, Robert Harris, Lynda Mason-George, Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.

2. YMDDIHEURIADAU

Cyng. Selwyn Walters, John Davies, Hazel Davies, Margaret Davies-Evans, Y Blismones Jo Grey a'r Arolygydd yr Heddlu Llanbedr PS.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL

3.1 Cyng Barton/Harris/Ramaya – pan yn ystyried y cais am gymorth ariannol oddi wrth *Gymdeithas Cerdd Llambed*, gan eu bod yn Noddwyr i'r Gymdeithas. (11.1)

3.2 Cyng Harris/Phillips- cais am gymorth ariannol oddi wrth Bwyllgor y Pwll Nofio, Llambed gan eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor. (11.6)

4. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD *31/01/2008*

Derbyniwyd cyfarfod Mis Ionawr fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

5.1 **Penderfynwyd i anfon llythyr at Arolygydd yr Heddlu yn Llambed** i ddiolch i'r heddlu am eu gwiath ymroddgar yn ystod yr wythnosau olaf mewn perthynas â digwyddiadau ym Mharc-yr-Orsedd ac yng nghanol y dref.

5.2 **Arestiwyd 2 berson** yn ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

5.3 **Bydd pwyllgor yn cael ei drefnu** gan gynnwys aelodau'r cyhoedd er mwyn sefydlu blaenoriaethau ar gyfer yr heddlu'n ystod y 3 mis nesaf. Materion posibl i'w cynnwys: *Cŵn yn Baeddu, Parcio, Goleuadau, Ymddygiad gwrth-gymdeithasol; Fandaliaeth*; *Yr Angen am Bresenoldeb Gweladwy'r Heddlu'n y Dref* ac *Annog y Ddarpariaeth o Gymorthfeydd yr Heddlu.*

5.4 **Fandaliwyd 27 car** yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar Stâd Maesyderi. Trafodwyd gwelliannau i'r golau a gosod CTCC symudol ar y safle.

5.5 **Ffafriwyd cyflogi Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu** (SCCH) yn hytrach na gwneud cyfraniad ariannol tuag at CTCC symudol , gan fod yr agwedd ddynol yn bwysig.

5.6 **Penderfynwyd i wneud ymholiadau'n ymwneud â'r ddarpariaeth o finiau** ar gyfer cŵn yn baeddu.

6. ETHOL Y MAER A'R DIRPRWY-FAER

Hoffai'r Dirprwy Faer Selwyn Walters petai person arall yn hytrach nag ef ei hun, yn ymgymryd â'r rôl o Faer, y flwyddyn nesaf. Cynigwyd y swydd i'r Cyng. Phillips. Os na fyddai'r Cyng. Phollips yn gweld ei ffordd yn glir i ymgymryd â'r swydd, penderfynwyd i'w chynnig i'r Cyng. Wilson.

7. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

7.1 **25/02/08: Cyfarfod Safle Cae'r Hen Ysgol, Adborth**: Cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau'r Cyngor Sir a Chyngor y Dref ar y 25ain o Chwefror, gyda'r bwriad o drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Tref yn prynu neu'n llogi'r cae fel amwynder ar gyfer pobl y dref. Mae'r mater yn awr yn nwylo'r Cyngor Sir.

7.2 **Canolfan Alw-Mewn Llambed datblygiadau pellach**: Y mae yna obaith y bydd y *Clwb Ieuenctid* neu'r *Ganolfan Alw-Mewn* fel y gelwid gan y Cyngor Tref ers yr Haf 2007, yn dechrau Mis Ebrill nesaf am un noswaith yr wythnos yng Nghanolfan Steffan, dan ofal Gyngor Sir Ceredigion (CSC). Dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y dyfodol agos.

7.3 **Trefniada**u **Cittaslow**: gobeithir trefnu cyfarfod yn y dyfodol agos.

7.4 **19/02/2008 Cyfarfod Ymgynghorol CSC Adborth**
Cyflwynwyd 3 cwestiwn o flaen llaw i GSC. Ymatebion-yn ystod y cyfarfod:

7.4.1 Yr angen am arolwg llawn o'r drafnidiaeth yn y dref: mae'r CSC yn ymwneud ag ymchwiliadau pellach. Bydd Asesiad Ardrawiad Draffig yn cael ei gario allan yn fuan.

7.4.2 Neuadd Fictoria Llambed: mae angen tâl o £11,000 y flwyddyn i gynnal y neuadd; petai diddordeb yn cael ei ddangos ar gyfer prynu'r neuadd byddai'r CSC yn barod i drafod y mater.

7.4.3 Cynlluniau ar Gyfer Cae Chwarae'r Hen Ysgol Gynradd: ni drafodwyd y cwestiwn yma; byddai fwy o wybodaeth yn cael ei ddarganfod yn ystod y cyfarfod o'r 25ain Chwefror (Croes-gyfeirio 7:1)

Materion eraill yn ymwneud â Llambed a godwyd yn ystod y cyfarfod:

7.4.4 Biniau ar gyfer Ysmygwyr Strydoedd y Dref: penderfynwyd i ail-ystyried y sefyllfa'n ystod misoedd yr haf gan fod mwy o ysmygwyr yn ymgynnull yn yr awyr agored yr adeg hynny.

7.4.5 Camerau Teledu Cylch-Cyfyng (CTCC) – y sefyllfa bresennol: gan Mr Carl Williams, Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am faterion trawsbynciol. Mae 4 camera allan o 6 yn gweithio ac yn recordio ond y mae problemau'n ymwneud â rheoli'r camerau yn bodoli drwy gydol yr amser. Mae'r amcan-bris ar gyfer y gwaith angenrheidiol yn ddisgwyledig, cyn y gelllid atgyweirio'r problemau rheoli. Mae 2 gamera'n ddiffygiol ac yn disgwyl cael eu trwsio. Mae'r camerau wedi helpu'r heddlu pan yn delio â 17 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn olaf.

7.4.6 Roedd nifer o gynghorwyr o'r farn y dylid ceisio cyflwyno dogfennau ymgynghorol, yr oedd angen ymateb iddynt gan Gynghorau Tref & Chymunedol, mewn iaith symlach, er mwyn hyrwyddo gwell ymateb.

.

7.5 **Cyfarfod Maer/D.Williams & Michael Freeman Curadur**-adborth 13/02/08

Derbyniwyd yr adroddiad ysgrifenedig a baratowyd gan Mr M.Freeman parthed y cyfarfod a fynychwyd ganddo a'r Maer a'r Cyng. D.Williams ar y 13/02/08. Mae manylion y cyfarfod yn amgaeedig ac ar gael yn Llyfrgell y Dref.

7.6 **Ymweliad â Chanolfan Gwiltiau Jen Jones** Trefnwyd gyfarfod ar gyfer Nos Fawrth - **18/03/08** 7:00pm.

7.7 **Lleoliad ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor Tref**: ystyriwyd nifer o leoedd. Penderfynwyd i ofyn i gynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth Highmead, yn ystod y cyfarfod a drefwyd ar gyfer y 18fed o Fawrth, petai'n bosibl i aelodau'r Cyngor Tref i barhau i gyfarfod yn Neuadd y Dref, ar yr amod eu bod yn prynu/llogi'r Neuadd.

7.8 **Trwsio'r Hysbysfwrdd ger y llyfrgell**: gwaith yn mynd yn ei flaen.

7.9 Clwb Pêl Droed: rhyddhau darn o'r cae ar gyfer Parc-Sglefrio: hysbyswyd gan y Cyng. Ifor Davies na fyddai hyn yn bosibl.

8. GOHEBIAETH
Cofnod 66/2007

8.1 **Côd Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol**: yn hysbysu awdurdodau ynghylch weithredu a fydd yn ofynnol gan bob aelod etholedig a phob aelod cyfetholedig sydd â hawl pleidlesio, erbyn 1 Mai 2008: er gwybodaeth

8.2 **Adeiladu Neuadd Fasonig a Neuadd Gymunedol arfaethedig**: Seiri-Ryddion Llety Peterwell: cais am gefnogaeth: cefnogi'r cais.

8.3 **Un Llais Cymru:** Gohebiaeth: er gwybodaeth.

8.4 **Arolwg Rhanddeiliad Cynulliad Cenedlaethol**: er gwybodaeth.

8.5 **CAVO:** Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli Ceredigion 2008: Ffurflen Enwebu: penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd nes y cyfarfod nesaf.

8.6 **Rhaglen Newid Rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf: Cyfarfod** 26ain o Fawrth, Swyddfa'r CSC, Aberaeron – 7:00pm; er gwybodaeth.

8.7 **Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.**

9. MENTER LAMBED
Cofnod 67/2007

Derbyniwyd yr adroddiad misol oddi wrth y Cyng. G.Evans, Cadeirydd Menter Llambed

9.1 **Tref Drawsnewidiol Llambed**: gobeithir darganfod yn gynnar ym mis Mawrth, canlyniad i'r cais am gymhorthdal.

9.2 **Trac Rhedeg Athletau**: ni wnaed penderfyniad, cyn belled gan y CSC mewn perthynas â lleoliad y Trac Rhedeg. Rhoddir ystyriaeth i Lambed, Aberystwyth ac Aberteifi fel lleoedd posibl ar gyfer y trac.

10. Cynllunio
Cofnod 68/2007

10.1 **Derbyniwyd un cais fel a ganlyn**: codi tŷ a garej, Plot 5, Pontfaen, Llambed, Ymgeisydd: Mr AM Evans , Cwmhalen, 12 Haulfan, Ffosyffin, Aberaeron, **Cefnogwyd**.

10.2 **Derbyniwyd 2 dyfarniad fel a ganlyn**:

10.2.1 Newid defnydd o Salon Harddwch i Swyddfa: 16 Stryd y Coleg, Llanbedr PS: Ymgeisydd: Edwin Mellen Press Cyf: Caniatawyd.

10.2.2 Codi estyniad: Canolfan Feddygol Llambed, Heol y Bont, Llambed. Ymgeisydd: Canolfan Feddygol Llambed: Caniatawyd.

10.3 **Hyfforddiant Cynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref** ULIC – Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd**:** Adborth; Mynychodd y Cyng C.Barton y cyfarfod yma. Pwysleisiwyd y ffaith y dylai Cynghorau Tref a Chymuned fod yn cymryd rhan yn y broses CDLl. Penderfynwyd i wahodd cynrychiolydd o'r Adran Gynllunio y CSC i'r cyfarfod nesaf, er mwyn taflu goleuni ar y mater.

11. CYLLID
Cofnod 69/2007
11.1

	Gwein .	**Cynnal.**	**Ad.137**	**TAW**
TALIADAU				
	£	£	£	£
Cyflog y Clerc: net – Ionawr 2008	429.94			
Trett ac Yswiriant Cenedlaethol 1/08	111.72			
Golau & Gwres Ionawr 2008	20.00			
Pwll Nofio Llanbedr PS			1,000.00	
Viking Direct – Inc/Papur	77.27			13.53
Un Llais Cymru; Tâl Aelodaeth	259.00			
Clwb Cerdd Llambed			100.00	
Cyngor ar Bopeth			300.00	
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig			20.00	
Gŵyl Fwyd Llambed			400.00	
Cymdeithas Amaethyddol Llambed			100.00	
Cyfanswm	897.93		1,920.00	13.53
CYFANSWM Y GWARIANT	**2,831.46**			

11.2 **Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth** Mr. Garym Roberts, Trefnydd y Gŵyl Dewi Drwg am y cyfraniad o £250 a dderbyniwyd yn ddiweddar.

11.3 **Cais am gymorth ariannol oddi wrth y Mudiad Cymorth ar Bopeth, Aberystwyth a'r Cylch.** Ar hyn o bryd darperir un sesiwn yr wythnos o 9:15-11:45am bob bore Llun ym Meddygfa Taliesin. Penderfynwyd gyfrannu £300 tuag at y Mudiad ac i gyfleu y byddai cyfraniad ychwanegol yn cael ei wneud, petai'r gwasanaeth yn cael ei ehangu'n Llambed.

11.4 **Gŵyl Fwyd Llambed & Chymdeithas Amaethyddol Llambed**: ni dderbyniwyd y daflen ariannol- penderfynwyd atgoffa''r mudiadau yma o'r angen am y ddogfen yma, cyn y gellir cyfrannu'n ariannol.

11.5 **Swm Priodol o Dan Adran 137(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 –** yr uchafswm y gellir cyfrannu tuag at elusennau : Y swm mwyaf y gellid gwario ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09 fydd £5.86 am bob etholwr – wedi codi o £5.54. Gan fod 1,631 etholwr yn Llambed, gellir cyfrannu uchafswm o £9,264.08

11.6 **Penderfynwyd i gyfrannu £1,000 tuag at y Pwll Nofio, Llambed.** Gwynebir toriad o £5,000 mewn cymhorthdal oddi wrth y CSC. Penderfynwyd i anfon llythyr at GSC yn cyfleu, fod y newid arfaethedig yn y fformiwla ariannol yn sicr o effeithio'n anffafriol ar ei allu i barhau fel uned gwasanaeth ar gyfer y gymuned.

11.7 **Grant Goleuadau Arddurnol Nadolig 2007 CSC:** caiff y grant ei gyfrif ar sail £ am £ hyd at uchafswm o £520. Penderfynwyd i wneud cais.

11.8 **Archwiliwr Mewnol ar gyfer y Cyngor Tref:** heb ddod o hyd i berson cymwys.

11.9 **Penderfynwyd i beidio â chyfrannu tuag at yr elusennau megis** *Gofal mewn Galar* – Cruse Ceredigion; *Y Sefydliad Aren Cymru* a'r *Ganolfan Adfer* (problemau camdriniaeth cyffuriau/alcohol ac anhwylder bwyta, Aberystwyth).

12. IS-BWYLLGORAU
Cofnod 70/2007

12.1 LLWYBRAU CERDDED

12.1.1 **Trefniadau ar gyfer torri gwair a thrwsio'r llwybrau cerdded yn** ystod misoedd yr haf, penderfynwyd i arddangos hysbyseb ar yr hysbysfwrdd ger y Llyfrgell yn gwahodd cynigion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod nesaf.

12.1.2 **Parc-yr-Orsedd:** trefniadau ar gyfer symud y Bloc o Graig: bydd y Maer yn cyfarfod â chynrychiolydd y Cwmni *Play World* ar y 5ed Fawrth i drafod y mater.

12.1.3 **Glanhawyd nifer o'r** carthffosydd sydd wedi eu lleoli ar lwybrau cerdded yr ardal.

12.2 PALMANTAU

12.2.1 Penderfynwyd i gysylltu â'r CSC i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i leoli 2 fin ar balmantau'r dref, ble gellir gwaredu â chaniau a.y.y.b, sy'n addas ar gyfer ail-gylchu.

12.2.1 Mae'r gwelliannau sy'n mynd ymlaen ar balmatau Heol y Bont, o fudd enfawr i'r dref. Bydd y gwaith yn cynnwys gwelliannau i Lôn Picton, yn y dyfodol**.**

12.3 CTCC

12.3.1 Adroddiad Misol CSC Ionawr 2008: bu yna 3 cais i archwilio deunydd digidol gan gynnwys 2 ymosodiad ac un distryw troseddol. Adroddwyd for "Dim Llun" yn bodoli ar un camera ers 10/10/2006.

12.3.2 E-bost a dderbyniwyd oddi wrth Mr Bleddyn Jones CSC 28/02/2008: apwyntiwyd gontractwr i ymwneud â gwelliannau i'r system yn ei gyfander drwy'r sir; felly mae'r gwaith wedi ei rannu rhwng lleoedd gwahanol. Mae'r broblem yn ymwneud â'r camera "Dim Llun" yn broblem hir a'r bwriad yw datrys y broblem yma yn ystod y cyfnod olaf o'r amserlen gwaith. Mae'r camera'n dal yn ddiffygiol. Pan yn trosgwlyddo'r camerau i'r system digidol Rhwydwaith y CS, profwyd dirywiad yn ansawdd y rheoli. Mae contractwr wedi archwilio a datrys y broblem gan gynnwys y gost. Hysbyswyd o'r ffaith yn ddiweddar, felly mae'r broblem yn dal i barhau.

12.3.3 Estynnwyd gwahoddaid i aelodau i ymweld â'r Ystafell Rheoli i arsylwi ar y System CTCC. Penderfynwyd derbyn y gwahoddiad ac i drefnu ymweliad gyda'r hwyr.

12.4 GOLEUADAU STRYD

12.4.1 Adroddwyd fod y golau stryd ar Heol Tregaron, ger Tafarn y Railway, yn goleuo drwy'r dydd. Penderfynwyd i adrodd y nam i'r CSC.

12.4.2 Disgwylir am ymateb Cyngor Sir Ceredigion i gais y Cyngor Tref am welliannau i'r goleuadau ar Heol y Bryn gan ddefnyddio deunyddiau arbed ynni na sydd yn gwneud drwg â'r amgylchedd.

12.4.3 Adroddwyd fod angen gwelliannau i'r goleuadau stryd ym Marley Mow.

13. U.F.A.
Cofnod 71/2007

Penderfynwyd i adrodd y canlynol at sylw'r CSC:

13.1 Does dim arwydd "Rhoi Cyfle i Draffig o gyfeiriad arall" yn bodoli ar Heol y Porthmyn;

13.2 Mae angen gwelliannau i'r arwyddion sy'n cyfeirio i'r ysgol gynradd newydd;

13.3 Mae angen casglu'r sbwriel sydd wedi ei ddodi i lawr y tu ôl, ac wrth ochr yr Archfarchnad Somerfield;

13.4 Mae'r sement o gwmpas y "man-hole" ger y mynedfa gefn yr Archfarchnad Somerfield, ger Tŷ Buckingham, angen ei wella;

13.4 Mae'r arwyddion "bysedd" ar y Stryd fawr ger Neuadd y Dref â sgriwiau'n rhydd;

13.5 Gellir gwaredu â'r llinellau melyn sydd wedi eu peintio o flaen yr hen ysgol gynradd, i wneud lle sydd ei angen yn ddirfawr ar gyfer parcio ceir;

13.6 Mae loriau trwm, hir a llwythog yn teithio dros Bryn-yr-Eglwys, yn dod o'r Stryd Fawr, gyferbyn â'r Orsaf Heddlu, ac yn mynd ymlaen i groesffordd Heol y Bryn, neu'n teithio o'r cyfeiriad arall o Heol Y Bryn. Penderfynwyd i ofyn i'r Cyngor Sir petai'n bosibl i godi arwydd ger Neuadd y Sgowt ac un arall gyferbyn â'r Neuadd Fictoria, yn atal loriau o'r fath rhag defnyddio'r heol yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:45pm.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Nos lau 27ain o Fawrth 2008 am 7:30pm

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad